Cofnodion cyfarfod Nos Iau, 26 Ionawr/January 2023 yng Nghanolfan Edward Richard.

**Yn bresennol /** ***Present*****:** Thomos Jones, Daniel Bailey, Mair Humphreys a Wyn Evans.

**Ymddiheurio /** ***Apologies****:* Tomos Jones, David M. Jones, Siarl Owen a Sarah Jones.

Derbyniwyd cofnodion 24 Tachwedd 2022 fel rhai cywir./ Minutes of meeting held 24 November 2022 were accepted as a correct record.

**Materion yn codi o gofnodion 24 Tachwedd 2022**

1. **Cyflwr Heolydd** – adroddodd y Clerc ei bod yn parhau i roi cwynion trwy "Clic" yn rheolaidd, ond yn anffodus nid oedd yn derbyn cadarnhad os bod y gwaith wedi ei gyflawni a'i peidio. Nodwyd bod angen tynnu sylw'r Adran Briffyrdd at yr isod:
    - Heol Tynlon, Swyddffynnon
    - Heol Penderlwyngoch, Tynygraig
    - Heol rhwng Pengraig Isaf a Pengraig Uchaf, Ystrad Meuirg
    - Cyflwr ochr y ffyrdd ar Rhiw Mel ac o groesffordd Tynllidiart tuag at Lôn Llan
    - Sicrhau bod grit yn y bocsys i gyd yn dilyn yr eira diweddar
    - Cwyno am y "fly tipping" ar heol Cwarel yr Hendre

Pwysleisiwyd eto am yr angen i barhau i bwyso ar y Cyngor Sir i flaenoriaethu'r gwaith atgyweirio ar yr heol o Bont Llanafan tuag at Pontrhydygroes er nad oes addewid i wneud y gwaith tan y flwyddyn ariannol nesaf.

**Gohebiaeth**

1. **Diffibriliwr Ystrad Meurig** – roedd y Clerc wedi cysylltu efo Mr Bill Ishmael, ac mi fydd ef yn danfon gwybodaeth ati pan bydd angen gwirio'r diffibriliwr y tro nesaf. Cytunwyd hefyd i ofyn am brisiau bocs i ddiogelu'r Diffibriliwr a meddwl am le addas i'w osod. Nododd y Cyng. Wyn Evans bod Diffibriliwr Tynygraig wedi ei leoli yng Nghapel Caradog a dylid cael bocs yno a'i osod ar wal y Capel fel ei fod yng ngholwg y cyhoedd. Nododd hefyd bod modd cael bocsys nawr sy'n gwresogi a diogelu cyflwr y diffibriliwr ond byddai rhaid cael cysylltiad trydanol i hyn. Cytunwyd bod y Clerc i wneud ymholiadau pellach efo Cyngor Cymuned Bronant ac Ysbyty Ystwyth gan ei bod hwy yn edrych ar hyn hefyd.
2. **Praesept** – adroddodd y Clerc ei bod wedi cyflwyno'r cais i'r Cyngor Sir yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd pryd yr edrychwyd ac aseswyd sefyllfa gyllidol y Cyngor Cymuned – rhoddwyd cais am braesept o £2,184.52. Bydd £170 yn cael ei dynnu o'r cyfanswm hyn ar gyfer cost etholaidau 2022.
3. **Hyfforddiant i Gynghorwyr** – cytunodd y Clerc i wneud ymholiadau pellach efo'r ddau Gyngor Cymuned arall o ran darpariaeth hyfforddiant i'r Cynghorwyr. Gellid, o bosib edrych ar hyfforddiant ymwybyddiaeth cyffredinol yn hytrach na mynychu'r holl sesiynnau sydd wedi ei rhestri efo Un Llais Cymru – hyn i'w drafod ymhellach.
4. **Maes Chwarae** – cytunwyd bod angen inni gyfarfod ar y safle pan bydd y tywydd yn well i edrych ar y rhaglen cynnal a chadw.
5. **Taliadau**: cytunwyd ar y talaidau â ganlyn:

    Canolfan Edward Richard - £70
    Capel MC Swyddffynnon - £70
    Eglwys Gwnnws - £70
    Eisteddfod Swyddffynnon - £150
    Costau Clerc – £91.28

**Matters arising from 24 November 2022 minutes**

1. **Road Conditions within the Community** – Clerk reported that she continued to complain on road conditions via "click" but unfortunately no reply is received in relation to the work when it's completed or not. It was agreed to draw the attention of the County Council's Highway Department to the following:
    - Tynlon Road, Swyddffynnon
    - Penderlwyngoch Road, Tynygraig
    - Road between Pengraig Isaf and Pengraig Uchaf, Ystrad Meuirg
    - Deep trenches at the side of the road at Rhiw Mel and from Tynllidiart Crossroads towards Lôn Llan
    - To ensure that all grit boxes ar re-filled after thr recent snow.
    - Fly Tipping on Quarry Road from Ystrad Meurig towards Ysbyty Ystwyth.

It was again emphasised the need to pressure the County Council to prioritise the renovation work on the road from Bont Llanafan to Pontrhydygroes when funding become available in early April.

**Correspondence:**

1. **Ystrad Meurig Defibrillator -** Clerk had contacted Mr Bill Ishmael and he will send the relevant information when it is necessary to check the defibrillator next. It was also agreed to look at the prices of a box to protect the defibrillator and a suitable place for its location. Councillor Wyn Evans noted that the Defibrillator in Tynygraig was located in the Chapel but a box should be erected to the wall of the chapel in order for the community to see it. He also noted that you may now purchase boxes with heating to protect the defibrillator. Clerk was to make further enquiries with the Bronant and Ysbyty Ystwyth Community Council as they were looking at purchasing boxes.
2. **Precept** – Clerk reported that she had presented the precept claim to the County Council after the financial assessment in the November meeting. A claim for £2,184.52 has been made, £170 will be deducated immediately to pay for the 2022 election costs.
3. **Training for Councillors** – Clerk agreed to enquire further with Bronant and Ysbyty Ystwyth Community Council in order to see what training is available to Councillors. It was suggested that a generic course would be beneficial rather than numerous sessions as listed by One Voice Wales – this will be discussed further.
4. Playing Field – it was agreed to meet on-site when the weather permits to look at the maintenance needed. –
5. **Payments**: the following were agreed

    Canolfan Edward Richard - £70
    Capel MC Swyddffynnon - £70
    Eglwys Gwnnws - £70
    Eisteddfod Swyddffynnon - £150
    Clerk costs – £91.28